COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 11.30 a.m., Dydd Iau 30 Mawrth 2023
Cyfarfod hybrid a gynhaliwyd yn 9 Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd
ac mewn sawl lleoliad arall, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1-15.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn cadeirio), Jan Tiley, Chris Franks, Stephen Nicholls, Jenni Jones-Annetts, Cathy Clark, Nicole Kinnaird, Siôn Aled Owen, Tim Palazon, Sam Emmett; Marion Burke a Salamatu Fada hyd at gofnod 10 yn unig). Cafwyd cworwm trwy gydol y cyfarfod, ac roedd chwech o bobl yn mynychu yn yr adeilad yng Nghaerdydd.
Mynychwyr: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad - hyd at gofnod 8 yn unig), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Alun (cyfieithydd). Hefyd Karen Morgan a Tina Hawkins (yn ystod cofnodion 1 a 2 yn unig); a Mary Morris (Rheolwr Adnoddau Dynol) a Tamara Garnault (CDC a Hyrwyddwr Iechyd a Lles) yn ystod cofnodion 7-9 yn unig.
Ymddiheuriadau: Caroline Davies, Judith Evans, Victory Ezeofor, Dona Lewis, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd).

2. Cyflwyniad gan Karen Morgan (Pennaeth y Gangen Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol / Diwygio, Llywodraeth Cymru) a Tina Hawkins (Pennaeth Addysg Oedolion, Llywodraeth) ynghylch Diwygio Addysg Drydyddol yng Nghymru

Fe wnaeth dau gynrychiolydd Llywodraeth Cymru eu cyflwyno eu hunain a defnyddio cyflwyniad PowerPoint i ddwyn sylw at bwyntiau allweddol ynghylch y diwygiadau presennol. **Byddai'r cyflwyniad dwyieithog yn cael ei rannu â holl aelodau'r Cyngor wedi'r cyfarfod.** Fe wnaeth John Graystone ddatgan buddiant yn sgil y ffaith ei fod hefyd yn aelod o fwrdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Roedd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym Medi 2022, a byddai'r ddeddf yn diddymu CCAUC ac yn creu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Roedd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd CADY wedi'u penodi ac roedd y cyfnod i ymgeisio am y chwe sedd arall ar y bwrdd wedi dod i ben yr wythnos flaenorol, a chafwyd set eang ac amrywiol o ymgeiswyr. Byddai CADY yn cychwyn gweithredu yn Ebrill 2024, a byddai cyfnod pontio tan wanwyn 2026. Trafodwyd prif gyfrifoldebau CADY, a'r 6 arloesedd a fyddai'n cael eu cyflwyno yn sgil hynny, a'r un mwy perthnasol o safbwynt AOC oedd y canlynol: **Ymrwymiad i ddysgu gydol oes - mae'r Ddeddf yn creu dyletswydd newydd i ariannu cyfleusterau priodol i ddarparu addysg bellach i oedolion cymwys.** Roedd hynny'n cyd-fynd â'r ymrwymiad y cyfeiriodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ato yn ei araith i sicrhau y bydd Cymru yn '*wlad sy'n cynnig ail gyfleoedd mewn addysg*'. Pwysleisiwyd yr ymrwymiadau yn Adran 94 y ddeddfwriaeth ynghylch dysgu gydol oes; byddai deddfwriaeth eilaidd ynghylch y rhain yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn haf 2024, a bryd hynny, byddai'r term 'oedolyn cymwys' yn cael ei ddiffinio. Yn wir, roedd addysg oedolion yn elfen hollbwysig o hanfodion arfaethedig CADY: roedd

pwysigrwydd dysgu anffurfiol a heb ei achredu fel rhan o hynny, nid fel llwybr at gymwysterau ffurfiol eraill yn unig, wedi'i bwysleisio gan lawer yn ystod y cam cynllunio.

Wrth drafod, nodwyd fod yr ymrwymiad i addysg oedolion yn amlwg, ond roedd y Cyngor yn gwybod hefyd y byddai angen hefyd i CADY fynd i'r afael ag agendâu a blaenoriaethau sectorau eraill mwy eu maint. Roedd trafodaethau ynghylch cyllidebau addysg oedolion eisoes yn mynd rhagddynt, ynghylch nawdd presennol ac yn y dyfodol, cyn sefydlu CADY. A oedd y ffaith y byddai un gronfa o arian o hynny ymlaen yn golygu bod llai o sicrwydd y byddai maes addysg oedolion yn dal i gael ei nawdd penodedig a theg? Gan ystyried fod CADY wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynghylch ei drafodion ariannol, byddai eglurder parhaus ynghylch hynny, ond ni ellid gwadu y byddai'r pwysau yn sylweddol ar y Comisiwn i ariannu gwaith. Cyfeiriwyd at berthnasoedd â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, a chadarnhawyd y byddai CADY yn ymgymryd â dyletswydd statudol bresennol CCAUC, fel rhan o'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, i ystyried caffael cyhoeddus sydd yn gyfrifol o safbwynt cymdeithasol, pennu amcanion mewn perthynas â nodau lles, a chyhoeddi strategaeth caffael.

Byddai ymrwymiadau i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflawni gan ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **o ran plethu â fframwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddai ateb ysgrifenedig ar gael yn fuan**. Yn yr un modd, byddai cwestiwn am argymhelliad adolygiad Hazelkorn y dylid cydweithredu â'r sawl sy'n gyfrifol am adfywio cymunedau a gweithredu ynghylch hynny yn cael ei anfon at ei chydweithwyr gan Karen Morgan.

Ychydig wythnosau yn flaenorol, ni lwyddodd y broses i benodi rhywun i rôl prif weithredwr y Comisiwn, a holwyd sut gallai hynny effeithio ar yr amserlen gweithredu. Roedd ymwybyddiaeth y gallai hynny gael effaith negyddol ac roedd sawl opsiwn wedi'u hystyried i sicrhau na fyddai hynny'n digwydd. Diolchwyd i Karen Morgan a Tina Hawkins am eu cyfraniadau ac fe wnaethant adael y cyfarfod ar yr adeg hon. Gofynnwyd iddynt ystyried dychwelyd i drafod materion tebyg â'r Cyngor ymhen oddeutu blwyddyn.

Dywedodd Kathryn Robson ei bod hi wedi cyflwyno cais i fod yn aelod o fwrdd CADY, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn Ebrill rhwng Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd CADY a swyddogion y Cyngor.

3. Newyddion ynghylch aelodaeth o'r Cyngor; cynigion ynghylch ymestyn cyfnodau swyddi tri aelod o'r Cyngor; ac ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd(-ion) ar gyfer 2023-24

Yn gyntaf, mynegodd John Graystone ei werthfawrogiad i ddwy aelod o'r Cyngor - Sonia Reynolds a Caroline Davies - a oedd wedi penderfynu peidio â derbyn yr opsiwn i ymestyn eu cyfnodau 6 blynedd ac felly buasent yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023. Roeddent wedi gwneud cyfraniadau sylweddol ac wedi bod yn gefnogol iawn ohono fel Cadeirydd y Sefydliad.

Yna, fe wnaeth ef a Cathy Clark a Chris Franks adael y cyfarfod dros dro. Y rhain oedd y tri aelod o'r Cyngor yr oedd panel yn cynrychioli'r Pwyllgor Chwilio wedi cyfweld â hwy yn ystod yr wythnosau blaenorol, ynghylch ymestyn eu cyfnod yn eu swyddi y tu hwnt i'w 6 blynedd wreiddiol. Fe wnaeth tri aelod o'r panel, sef Stephen Thomas, Jan Tiley a Steve Nicholls, siarad am gryfderau pob ymgeisydd o ran eu profiad, cefndiroedd amrywiol a'u presenoldeb canmoladwy. Argymhelliad y panel oedd cynnig 2 flynedd arall fel llywodraethwyr i'r tri, i ddod i ben yn bendant ar 31 Mawrth 2025. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad y dylid ymestyn cyfnod John Graystone, Cathy Clark a Chris Franks yn eu swyddi am ddwy flynedd o 1 Ebrill 2023**. Yna, dychwelodd y tri i'r cyfarfod.

Gan symud ymlaen i ethol swyddogion y Cyngor (proses ethol flynyddol), cynigodd Chris Franks y dylid ethol John Graystone yn Gadeirydd am flwyddyn arall oherwydd ei arbenigeddau penodol mewn cymaint o feysydd sy'n gysylltiedig â gwaith y Sefydliad. **Cadarnhawyd hyn gan y Cyngor** a diolchodd John Graystone i'r aelodau am barhau i'w gefnogi. Yna, fe wnaeth yntau enwebu Steve Nicholls a Salamatu

Fada i fod yn gyd-Is-gadeiryddion am flwyddyn, ac fe wnaeth y ddau gadarnhau eu bod yn fodlon sefyll. **Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo rhannu'r rôl hon rhwng y ddau, a byddai eu cyfnod wrth y gwaith yn cychwyn ar 1 Ebrill 2023.**

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 17 Ionawr 2023 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd y tri phwynt gweithredu y cyfeirid atynt yn y cofnodion oll wedi cael eu gweithredu.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2023

Fe wnaeth John Graystone ddatgan buddiannau personol mewn perthynas â dwy eitem yn yr adroddiad hwn - Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (fel aelod o fwrdd y sefydliad hwnnw) a thâl athrawon (fel aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a oedd yn cadw golwg ar gyflogau athrawon yng Nghymru).

Yr her fwyaf ar hyn o bryd oedd sicrhau nawdd dichonol i'r sefydliad, oherwydd nid oedd y fformiwla bresennol yn ariannu'r holl gostau. Mewn ymateb i hynny, bu'n rhaid diddymu 2 swydd rheoli a rolau oedd yn cyfateb â 6 FTE ymhlith staff cymorth, fel rhan o ymarfer arbed costau. Roedd perthnasoedd diwygiedig oedd yn ymgorffori nawdd newydd posibl yn cael eu treialu â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Lloegr a'r Alban (profiadol yn rhaglen *Multiply*), awdurdodau lleol a cholegau AB, a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfeiriodd un aelod o'r Cyngor at y posibilrwydd o geisio nawdd trwy gyfrwng cyrsiau mynediad ym meysydd addysg bellach ac uwch.

Mynegodd rhai o aelodau'r Cyngor bryder y gallai gwasanaethau addysgol ar gyfer cymunedau tlotach Cymru ddioddef yn sgil gorfod wynebu realiti ariannol mor llym. Gan ymateb, fe wnaeth y rheolwyr sicrhau'r aelodau fod y gefnogaeth a'r ymrwymiad i barhau i weithio yn y cymunedau hynny yn parhau. Ynghylch mater arall, roedd ymweliadau diweddar gan aelod o'r Cyngor â'r swyddfeydd yng Nghaerdydd a Glyn Ebwy wedi dangos bod lle gwag sylweddol yno. Roedd ymwybyddiaeth nad oedd AOC o reidrwydd yn gwneud defnydd llawn o'i gyfleusterau swyddfa presennol. Roedd y Strategaeth Ystadau a gyflwynwyd ger bron cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau yn gynharach yn y mis wedi dangos fod rhywfaint o waith paratoi yn digwydd i gwtogi maint ambell swyddfa, bod y gwaith o rentu lleoedd penodol mewn swyddfeydd i gyrff eraill yn mynd rhagddo, a bod y posibilrwydd o beidio â gweithio o gwbl mewn swyddfeydd ar ddydd Gwener i arbed ar filiau gwresogi a goleuo yn cael ei ystyried.

Ynghylch dyfarniad cyflog 2022-23, roedd 3% yn ychwanegol wedi'i gynnig ar ben y 5% oedd eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, a chafwyd cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru y byddai'n talu am hynny. Ac ynghylch materion cydraddoldeb, roedd **fersiwn terfynol cynllun gwrth-hiliaeth y Sefydliad wedi'i gyflwyno yn gynharach yr wythnos honno a byddai copi yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor**. Roedd angen ymateb i gynllun LHDTC+ Llywodraeth Cymru hefyd. Cydnabuwyd nad oedd gan y Sefydliad swyddog penodol i arwain gwaith ynghylch y materion hyn a materion eraill ym maes amrywiaeth.

6. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Digwyddiad i Aelodau ar 22 Chwefror 2023; a diweddariad ynghylch cynrychiolydd y Sefydliad yn Llys Prifysgol Abertawe

Cydnabuwyd y problemau technegol o brofwyd yn ystod y cyfarfod. Roedd nifer o'r aelodau a oedd yn bresennol yn credu bod y 4 CCB rhithiol dilynol a gafwyd wedi ymdebygu'n fwy i 'ymarferion amenio', a

bod llai o egni a thân nag yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb y blynyddoedd blaenorol. Roedd y ffigurau presenoldeb wedi bod yn eithaf cyson yn ystod y 4 blynedd ers y cyfarfod wyneb yn wyneb diwethaf (yn Wrecsam yn 2019, ble cafwyd nifer lai nag yn ystod blynyddoedd blaenorol hefyd). Cadarnhawyd y byddai digwyddiad 2024 yn gyfarfod wyneb yn wyneb a byddai trafodaeth yn digwydd ynghylch lleoliad i'w gynnal. Diolchwyd i Marion Burke am drefnu cyfraniad TUC Cymru at y digwyddiad undebau llafur ac addysg undebau llafur.

Cyfeiriwyd yn y CCB at yr angen i geisio cynrychiolydd newydd i fod yn aelod o Lys Prifysgol Abertawe ar ran y Sefydliad. Roedd Jan Tiley (cyn-fyfyrwraig yn y brifysgol) wedi gwirfoddoli, a chafodd y cyfle cyntaf i gynrychioli'r Sefydliad yn ystod cyfarfod y Llys a gynhaliwyd yn gynharach yr wythnos honno. Rhoddodd adborth llafar byr: roedd gweithio fel rhan o bartneriaethau ac adfywio cymunedau (mater a godwyd mewn trafodaeth ar wahân gyda Tim Palazon) wedi'i drafod â staff y Brifysgol, a oedd hefyd yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am waith presennol AOC yn ardal Abertawe.

7. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2022 - 28 Chwefror 2023

Rhagwelid y byddai diffyg ariannol y flwyddyn (erbyn diwedd Chwefror) yn £81,000 a derbyniwyd y gallai hynny waethygu wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Y canlyniad tebygol fyddai gwneud mwy o ddefnydd o'r cronfeydd wrth gefn (cymeradwywyd hynny gan y Cyngor yn ystod ei gyfarfod blaenorol). Roedd y sefydliad yn dal i drafod â phenaethiaid ariannu yn uned briodol Llywodraeth Cymru ynghylch y gefnogaeth annigonol a ddarperid yn sgil methodoleg ariannu addysg rhan amser. Dadleuid nad oedd hynny'n briodol o ran yr amrywiaeth o wasanaethau cefnogi y disgwylid i AOC eu darparu, a bod hynny'n annheg oherwydd roedd 80% o'r nawdd a geid yn seiliedig ar ddarpariaeth, ac roedd gwahanol gyrsiau yn cael eu pwysoli'n ariannol yn wahanol (tueddai cyrsiau celf a chrefft i gynnig y cyflogau isaf fesul awr).

8. Cofrestr Risgiau Mawrth 2023

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r fersiwn hwn o'r Gofrestr yr wythnos flaenorol ac wedi cael sicrwydd bod cynnwys y gofrestr yn cael ei fonitro'n fewnol yn rheolaidd. Nodwyd fod statws tair o'r risgiau yn yr adran materion ariannol yn dal yn Goch - 'annerbyniol' - ar waethaf y camau lliniaru i ymdrin â hwy. Ynghylch y ffaith fod y Sefydliad yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru am 85%+ o'i nawdd y cyfeirid ato yn un o'r rhain (Risg 1.1.1), roedd y gyfran honno wedi codi a gostwng yn ystod blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, roedd rhan helaeth o weddill nawdd y Sefydliad yn deillio o bocedi llywodraethol hefyd (o adrannau Llywodraeth y DU neu trwy gyfrwng yr adrannau hynny), felly roedd angen ystyried y ffactor hwnnw hefyd.

9. Addysg Oedolion Cymru fel Sefydliad sy'n Ystyriol o Drawma

Cyflwynwyd Mary Morris a Tamara Garnault a fyddai'n siarad am hyn. Rhannwyd **cyflwyniad PowerPoint** â phawb a **byddai'n cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor wedi'r cyfarfod**. Roedd y sector Addysg Bellach wedi cychwyn ymwneud â maes Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Rhannwyd diffiniad o drawma a nodwyd fod Bod yn Ystyriol o Drawma yn cynnwys 5 egwyddor graidd. Cadarnhawyd na fyddai'r Sefydliad yn ceisio trin unrhyw drawma y byddai yn dod yn ymwybodol ohono, ond byddai'n cyfeirio unrhyw unigolion a oedd yn dymuno cael cymorth i'r mannau priodol. Roedd tystiolaeth helaeth i gadarnhau'r cysylltiadau rhwng profi trawma yn ystod plentyndod a chynnydd o ran troseddu, trais a chamddefnyddio alcohol/cyffuriau yn ddiweddarach ym mywydau'r sawl sydd wedi profi hynny, a heb os, roedd pandemig Covid wedi cyfrannu at lefelau trawma.

Roedd gwaith hunanasesu yn mynd rhagddo ar y pryd, ac roedd cynllun 3 blynedd ynghylch sut i fynd i'r afael â'r pwnc newydd gychwyn yn y Sefydliad. Byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gydweithwyr a byddai ar gael i aelodau'r Cyngor hefyd, a chredai Kathryn Robson fod y Sefydliad ar y blaen o gymharu â sefydliadau eraill mewn perthynas â'r mater hwn, oherwydd profai ei hanes ei fod eisoes wedi bod yn gwneud llawer iawn o'r math hwn o waith eisoes wrth ymdrin â phobl oedd yn profi heriau sylweddol yn eu bywyd. Fodd bynnag, roedd terminoleg a dulliau derbyniol yn y maes yn newid, ac roedd angen eu mabwysiadu'n gyffredinol.

Diolchwyd i Mary Morris a Tamara Garnault am eu cyfraniadau ac fe wnaethant adael y cyfarfod ar yr adeg hon.

10. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023

Pryderai rhai aelodau o'r Cyngor fod ffigurau presenoldeb cyrsiau addysg sylfaenol a sgiliau hanfodol i oedolion gryn dipyn yn is na'r targed, oherwydd roeddent yn ystyried fod y rhain yn elfennau 'bara menyn' o genhadaeth y Sefydliad. Cadarnhawyd fod ymdrechion yn digwydd i gynyddu'r niferoedd sy'n cyfranogi mewn cyrsiau o'r fath. Yng nghofnod 9, eglurwyd pam yr oedd y Fforymau Rhanbarthol wedi dirwyn i ben, gan ystyried yr adolygiad o'r cynllun aelodaeth. Gobeithiai Siôn Aled Owen y byddai'r fforymau yn dychwelyd yn y dyfodol. Ofnid ysywaeth fod cyfarfodydd y Fforymau yn y gorffennol diweddar wedi bod yn gyfleoedd i staff sgwrsio â staff eraill yn anad dim, a thrwy gyfrwng gwaith iechyd a lles Tamara Garnault cafwyd enghreifftiau mwy creadigol o ddod â dysgwyr ynghyd, yn ystod boreau coffi a thrwy gyfrwng gweithgareddau ymgysylltu eraill. Roedd hynny fel pe bai'n fwy llwyddiannus i'r gynulleidfa honno na chyfarfodydd mwy ffurfiol y Fforymau.

Ynghylch cau ffatri Two Sisters yn Ynys Môn, byddai rhagor o adroddiadau ar gael ynghylch y mathau o gyrsiau (yn cynnwys ESOL) a fyddai'n cael eu cynnig i'r gweithwyr a oedd wedi'u diswyddo. Ynghylch achos o adborth gan diwtoriaid, honnwyd fod dalenni a ffurflenni dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gyfer dosbarthiadau ESOL wedi arwain at rywfaint o ddryswch. A oeddent yn ofynnol yn y fformat hwnnw ar gyfer y cyrsiau hynny? **Byddai hynny'n cael sylw**. Hefyd, roedd agenda cyflogadwyedd llywodraethau lleol a chenedlaethol yn peri rhywfaint o straen i ddysgwyr a thiwtoriaid.

11. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023

Nododd y Cyngor y cofnodion cyfan. Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo cynnig newydd i rannu costau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a disgwylid gweld cynllun parhad busnes terfynol yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Nodwyd newidiadau i'r Strategaeth Ystadau ar gyfer 2022-23. Cyfeiriodd Cofnod 4 at yr heriau parhaus o ran recriwtio tiwtoriaid, a chafodd aelodau'r Cyngor drafodaeth fer am hyblygrwydd contractau a chyfyngiadau yn y maes hwnnw.

12. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023

Nododd y Cyngor y cofnodion. Dywedodd Chris Franks fod cynnydd da wedi digwydd o ran cyflawni argymhellion adroddiadau archwiliadau (mewnol ac allanol) diweddar, a nododd fod manylion ymarfer tendro a'r amserlen i benodi archwilwyr allanol wedi cael eu cadarnhau a'u cymeradwyo. Roedd derbynioldeb ceiswyr lloches penodol yn cael addysg gan y Sefydliad yn fater pwysig, er mwyn peidio â pheryglu AOC na dysgwyr unigol. Byddai adroddiad am y data sy'n sail i ehangu darpariaeth ESOL y Sefydliad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y pwyllgor yn nhymor yr haf, a **byddai'r llefydd gwag yn**

<u>aelodaeth y pwyllgor yn sgil ymadawiad Sonia Reynolds a Caroline Davies yn cael eu trafod ymhellach â'r Cyngor</u>.

13. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Yn sgil ymadawiad dwy aelod o'r Cyngor y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, roedd nifer yr aelodau yn 15 (20 oedd yr uchafswm posibl). Roedd pedwar o'r seddau gwag ar gyfer aelodau etholedig ac un ar gyfer aelod a apwyntir. Roedd gwaith yn digwydd i lenwi'r swydd a apwyntir, ond roedd heriau ymarferol o ran ethol aelodau o'r rhanbarthau i lenwi'r swyddi gwag oherwydd yr adolygiad a oedd yn mynd rhagddo o gynllun aelodaeth y Sefydliad, a allai arwain at newid y dull o ethol aelodau. Cydnabuwyd fod cyrff llywodraethu eraill yn cael trafferth recriwtio hefyd. Credai'r Cadeirydd fod y ddau gyflwyniad yn ystod y cyfarfod wedi bod yn gyfleoedd buddiol i drafod a oedd wedi ennyn cyfraniadau da gan aelodau'r Cyngor.

14. Cofnod Busnes Cyfrinachol yng nghyfarfod y Cyngor ar 17 Ionawr 2023

Cafodd cofnod Busnes Agored Cyfrinachol cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, ei gymeradwyo fel cofnod cywir.

15. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill am weddill blwyddyn academaidd 2022-23

- Dydd Mawrth/Dydd Mercher 23-24 Mai (Diwrnod Cynllunio Strategol, Stagbwll, de Sir Benfro): byddai rhagor o fanylion ynghylch hyn, yn cynnwys y rhaglen, dewisiadau llety, gweithgareddau awyr agored a phosibiliadau o ran cludiant cyhoeddus yn dilyn;
- Dydd Iau 6 Gorffennaf (heb ei gadarnhau eto – efallai y gellid symud y digwyddiad i ddiwrnod gwaith arall yn ystod yr un wythnos)

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 2	Cyflwyniad ynghylch Diwygio Addysg Drydyddol yng Nghymru	Byddai'r cyflwyniad dwyieithog yn cael ei rannu â holl aelodau'r Cyngor wedi'r cyfarfod. O ran plethu â fframwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddai ateb ysgrifenedig ar gael yn fuan.	ST / Karen Morgan	Ebrill 2023
Cofnod 3	Newyddion ynghylch aelodaeth o'r Cyngor; cynigion ynghylch estyn cyfnodau swyddi tri aelod o'r Cyngor ac ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd(-ion) ar gyfer 2023-24	Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad y dylid ymestyn cyfnod John Graystone, Cathy Clark a Chris Franks yn eu swyddi am ddwy flynedd o 1 Ebrill 2023. Fe wnaeth y Cyngor gadarnhau y byddai John Graystone yn Gadeirydd a Steve Nicholls a Salamatu Fada yn Is-gadeiryddion yn ystod 2023-24, gan gychwyn ar 1 Ebrill 2023.	ST ST	Ebrill 2023 Ebrill 2023
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2023	Roedd fersiwn terfynol cynllun gwrth-hiliaeth y Sefydliad wedi'i gyflwyno yn gynharach yr wythnos	CH / ST	Ebrill 2023

		honno a byddai copi yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor.		
Cofnod 9	Addysg Oedolion Cymru fel Sefydliad sy'n Ystyriol o Drawma	Byddai'r cyflwyniad PowerPoint yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor wedi'r cyfarfod.	ST	Ebrill 2023
Cofnod 10	Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 27 Chwefror 2023	Roedd fersiynau Cymraeg/Saesneg o'r llawlyfrau a ddefnyddid yn y dosbarthiadau ESOL yn achosi heriau i ddysgwyr ac roedd angen datrys hynny.	CH	Ebrill 2023
Cofnod 12	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023	Byddai'r bylchau yn aelodaeth y pwyllgor yn sgil ymadawiad Sonia Reynolds a Caroline Davies yn cael eu trafod ymhellach â'r Cyngor.	CF / JG / ST	Mehefin 2023